**Eitem ar yr agenda: 12**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 26ain Hydref 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **COLIN HANKS,<br>PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL<br>(CYNNAL Y GWASANAETHAU)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod ar addasiadau i Raglen Gyfalaf yr Adran Drafnidiaeth. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn y Rhaglen Gyfalaf 2005/06 a gymeradwywyd mae £10K o ddarpariaeth ar gyfer prynu cerbyd yn lle'r un a ddefnyddir gan y Ganolfan Sgiliau Dysgu a Datblygu (SLDC) i roi hyfforddiant ar Wrthdrawiadau ar y Ffyrdd, ac mae £45K o ddarpariaeth ar gyfer prynu cerbyd yn lle'r un a ddefnyddir i roi hyfforddiant gyrru.

1.2 Mae'r rheolau Cysoni Hyfforddiant Gyrru Ewropeaidd newydd, a fydd yn dod i rym yn 2007, yn dweud bod raid i gerbydau ar gyfer rhoi hyfforddiant gyrru gwrdd â gofynion mwy manwl gan gynnwys cyfyngiadau ar bwysau gros isaf.

2. **CEFNDIR**

Y Cerbyd Hyfforddiant ar Wrthdrawiadau ar y Ffyrdd

2.1 Oherwydd newidiadau i'r ffordd mae hyfforddiant yn cael ei roi ac ar gais staff y Ganolfan Sgiliau, mae manyleb wreiddiol y cerbyd wedi cael ei newid.

2.2 Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys to uwch, a fydd yn effeithio ar faint y drysau ôl, cynnydd yn y prif lwythi pwysau a batri allbwn uchel a phecyn eiliadur ar gyfer y goleuadau allanol.

2.3 Bydd y newidiadau eraill yn cael eu gwneud pan dderbynnir y cerbyd, a bydd yn cynnwys gosod cewyll cludo telesgopig i drin yr anghenion gwahaniaethu a lle i storio'r ysgol i'w rhoi ar ben y to.

2.4 Bydd hyn yn dod â chost y cerbyd i tua £20K.

Y Cerbyd Hyfforddiant Gyrru

2.5 Cytunwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol fod angen cynllun bocs cerbyd sylfaenol gydag esgynnydd ar y cefn, gyda thanciau hyblyg dŵr fel balast (i roi rhagor o bwysau). Gellid tynnu'r balast i ffwrdd er mwyn defnyddio'r cerbyd i gludo llwythi cyffredin rhwng cyrsiau gyrru.

2.6 Ers i'r gyllideb gael ei chymeradwyo, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dod at y Gwasanaeth i ofyn am gerbyd sy'n ateb eu hanghenion hwy trwy gludo offer amddiffyn yr amgylchedd. Mae'r Asiantaeth wedi darparu £20K o gyllid tuag at hyn.

2. **CEFNDIR** *(parhad)*

Cerbyd Hyfforddiant Gyrru *(parhad)*

2.7 Bydd angen nawr i'r cerbyd aml-swyddogaeth allu gweithredu o fewn swyddogaeth hyfforddi, cludo nwyddau cyffredin ac amddiffyn yr amgylchedd.

2.8 Er mwyn i'r cerbyd allu cyflawni'r tair swyddogaeth yma'n ddiogel, rhaid cael cryn ddyfeisgarwch er mwyn sicrhau y gellir ateb yr holl ofynion tra'n cydymffurfio â rheoliadau adeiladu'r cerbyd.

2.9 Bydd yr addasiadau yma'n codi cost y cerbyd i £80.6K.

3. **GWYBODAETH**

Y Cerbyd Hyfforddiant Gwrthdrawiadau ar y Ffyrdd

3.1 Dadansoddiad o'r costau:

| | |
|---|---|
| Y gyllideb wreiddiol ar gyfer y cerbyd | £10K |
| Cost y cerbyd wedi'i addasu | £20K |
| Y gwahaniaeth yn y gyllideb | **£10K** |

Y Cerbyd Hyfforddiant Gyrru

3.2 Dadansoddiad o'r costau:

| | |
|---|---|
| Y gyllideb wreiddiol ar gyfer y lori focs | £45K |
| Incwm gan Asiantaeth yr Amgylchedd | £20K |
| Cost y cerbyd wedi'i addasu | £80,600 |
| Y gwahaniaeth yn y gyllideb | **£15,600** |

3.3 Gellir cwrdd â'r gwahaniaethau yn y cyllidebau, sef £10K a £15.6K, o'r arian sy'n bod eisoes oherwydd y tanwariant o £160K a ragwelir yng nghyllideb Cyfalaf Fflyd y Tendrau Dŵr.

3.4 Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol gan fod y symiau hyn o leiaf 10% yn uwch na'r cynigion gwreiddiol, mae angen cael cymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub.

4. **ARGYMHELLION**

4.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cynyddiadau arfaethedig yn y gwariant ar gerbyd hyfforddi gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a'r cerbyd hyfforddiant gyrru trwy ddefnyddio'r arian sydd yn y tanwariant a nodwyd.